Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent


Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn Cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2511A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae cynllunio ariannol gwell a setliadau gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa well i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr, ond mae heriau'n bodoli o hyd i gau bylchau yn y gyllideb yn llwyr dros y tymor canolig.


Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae cynllunio ariannol gwell a setliadau gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa well i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr, ond mae heriau'n bodoli o hyd i gau bylchau yn y gyllideb yn llwyr dros y tymor canolig 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu dull cynllunio ariannol mwy cynaliadwy ac mae'n cydnabod yr angen i ddeall effaith ariannol barhaus y pandemig 8

Mae'r Cyngor yn cynyddu ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac mae'n dal i fod yn ymrwymedig i wneud hynny dros y tymor canolig 11

Mae perfformiad cyffredinol y Cyngor yn erbyn y gyllideb yn gwella ac, er bo rhai meysydd gwasanaeth yn dal i orwario, mae'r Cyngor yn cymryd camau i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pwysau hyn ar y gyllideb 13

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull mwy cynaliadwy o gynllunio arbedion ond mae heriau pellach yn bodoli o hyd i adnabod arbedion digonol i gau'r bwlch a amcangyfrifir o ran cyllid yn y tymor canolig a hynny'n llwyr 15

Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn dal i fod yr isaf yng Nghymru 16

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae’r tabl isod yn nodi’r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi’u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | I sicrhau bod ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhagfynegi gofynion o ran cyllid yn y dyfodol mor gywir â phosibl, dylai’r Cyngor:<br>• fynd ati’n rheolaidd i adolygu ei amcangyfrifon mewn perthynas â phwysau o ran costau ar gyfer blynyddoedd dau i bump i sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn adlewyrchu lefelau diweddar pwysau o ran costau. |
| C2 | I bontio’r bwlch o ran cyllid y mae’n ei amcangyfrif yn y dyfodol a chyfrannu at gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol dylai’r Cyngor:<br>• barhau i ddatblygu a chyflawni cynigion newydd dan ei raglen Pontio’r Bwlch. |

# Mae cynllunio ariannol gwell a setliadau gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa well i gynnal ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr, ond mae heriau'n bodoli o hyd i gau bylchau yn y gyllideb yn llwyr dros y tymor canolig

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

### Yr hyn a ganfuom

7 Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ysgwyddo costau ychwanegol o £8 miliwn a cholledion incwm o £3 miliwn yn 2020-21 oherwydd y pandemig. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r costau hyn yn cael eu hariannu o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru.

8 Yn ogystal â hyn, cafodd y Cyngor gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru hefyd mewn perthynas â chymorth gyda'r dreth gyngor ac fe ddyfarnwyd ystod o grantiau pellach sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn.

9 Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cael oddeutu £12.2 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn 2020-21. Caiff hyn ei nodi yn **Arddangosyn 2** isod. Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys cyllid lle mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant, yn dosbarthu arian gan Lywodraeth Cymru i drydydd partïon.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i’r Cygnor yn ystod 2020-21[2]**

Mae’r tabl isod yn dangos amcangyfrif o wariant ychwanegol y Cyngor a’r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £8.4 miliwn |
| Swm yr incwm y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi’i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £2.3 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19:<br>• Y gronfa galedi – £10.4 miliwn<br>• Grantiau eraill sy’n gysylltiedig â COVID-19 – £1.8 miliwn | £12.2 miliwn |
| Cost COVID-19 i’r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £0.3 miliwn |

10 Ym mis Mehefin 2020, cafodd y Pwyllgor Gweithredol adroddiad am effaith y pandemig ar sefyllfa ariannol y Cyngor a’i raglen Pontio’r Bwlch. Ers hynny, mae’r Cyngor wedi parhau i adolygu risgiau ariannol y pandemig ac fe adlewyrchir hyn yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC), adroddiadau monitro’r gyllideb ar gyfer 2020-21 a phapurau pennu’r gyllideb ar gyfer 2021-22.

11 Mae’r Cyngor wedi dechrau ystyried effaith y pandemig ar drigolion a busnesau lleol a sut y gallai hyn effeithio ar rai o wasanaethau’r Cyngor. Er enghraifft, mae’r Cyngor wedi addasu’r arbedion a ragwelir a’r ffrâm amser ar gyfer cynyddu i’r eithaf yr incwm o’i unedau diwydiannol o ystyried effaith COVID-19 ar fusnesau lleol. Mae’r Cyngor hefyd wedi ystyried gallu trigolion i dalu mwy am wasanaethau’r Cyngor wrth ystyried codiadau mewn ffioedd a thaliadau ar gyfer 2021-22.

[2] Ffynhonnell: darparwyd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2021

## Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu dull cynllunio ariannol mwy cynaliadwy ac mae'n cydnabod yr angen i ddeall effaith ariannol barhaus y pandemig

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

12 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.


### Yr hyn a ganfuom

13 Y llynedd, canfuom fod y Cyngor yn datblygu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy, ond roedd yn rhy gynnar i asesu a fyddai hon yn cryfhau cydnerthedd ariannol dros y tymor canolig.

14 Mae gan y Cyngor SATC sydd wedi'i datblygu'n dda ac sy'n nodi'r bwlch o ran cyllid a ragwelir ar gyfer y cyfnod rhwng 2021-22 a 2025-26. Dengys **Arddangosyn 3** nad oes gan y Cyngor fwlch o ran cyllid a ragwelir ar gyfer 2021-22 (mae'n amcangyfrif gwarged o £1.3 miliwn) ond mae bwlch o £2.4 miliwn yn dal i fodoli ar gyfer 2022-23 a £4.5 miliwn ar gyfer 2023-24.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd o 2021-22 i 2023-24 o £6.9 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y tair blynedd ganlynol[3].




15 Mae'r SATC ddiweddaraf a phapurau diweddaraf y gyllideb yn cynnwys rhagolygon manwl ar gyfer pwysau ariannol yn 2021-22, ond dim ond pwysau cyfyngedig o ran costau a adnabuwyd ar gyfer y pedair blynedd sy'n weddill o'r SATC. Mae'r SATC yn cynnwys darparu £1 filiwn y flwyddyn ar gyfer pwysau heb eu hadnabod o 2022-23. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau o ran costau a thwf a adnabuwyd fel rhan o broses pennu'r gyllideb wedi bod yn uwch nag £1 filiwn, gan amrywio o £1.5 miliwn i £2.1 miliwn. Byddai'n ddoeth, felly, i'r Cyngor adolygu'r amcangyfrif hwn bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn adlewyrchu lefelau diweddar pwysau o ran costau.

16 Mae'r Cyngor yn gwneud gwaith mwy manwl i adnabod maint pwysau o ran costau trwy'r broses flynyddol i bennu'r gyllideb. Mae'r gwaith hwn yn ystyried:

- parhad tebygol pwysau presennol o ran costau i mewn i'r flwyddyn ganlynol;
- gallu portffolios i liniau'r pwysau o fewn cyllidebau presennol;
- effaith COVID-19;

[3] Ffynhonnell: Adroddiad Cyllideb Refeniw 2021-22 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 4 Mawrth 2021

- newidiadau yn y galw am wasanaethau; a
- phwysau o ran costau a brofwyd gan awdurdodau lleol eraill.

17 Caiff pwysau na ellir eu rheoli o fewn y portffolio eu hystyried fel rhan o broses pennu'r gyllideb ac maent yn cael eu herio gan swyddogion ac aelodau. Lle tybir bod hynny'n angenrheidiol, mae'r Cyngor yn addasu cyllidebau sylfaenol i ymateb i bwysau ar y gyllideb.

18 I oleuo cynllunio ariannol ac adnabod eu bylchau o ran cyllid a ragamcanir, mae'r holl gynghorau'n gwneud tybiaethau ynghylch ffactorau a fydd yn effeithio ar faint o gyllid fydd ar gael iddynt mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Mae tybiaethau'r Cyngor yn ei SATC yn darparu rhagolwg fantoledig ar adeg ei chyhoeddi o'i gymharu â'r tybiaethau a wnaed gan yr holl Gynghorau ledled Cymru.

19 Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn herio'r tybiaethau yn ei SATC yn rheolaidd. Mae swyddogion yn mabwysiadu dull darbodus ar y cyfan ac yn gallu egluro'r rhesymeg dros y tybiaethau. Fodd bynnag, gall y bwlch o ran cyllid gynyddu os yw pwysau o ran costau mewn blynyddoedd yn y dyfodol yn uwch na'r amcangyfrif o £1 filiwn sydd wedi'i gynnwys yn y SATC ac os na chânt eu gwrthbwyso'n llwyr gan rai o'r tybiaethau eraill, mwy darbodus.

20 Mae'r Cyngor wedi adnabod rhai newidiadau yn y galw am wasanaethau yn ystod y pandemig – cynnydd mewn prydau cymunedol, er enghraifft – ond nid yw wedi cwblhau adolygiad systemig o effaith COVID-19 ar y galw am wasanaethau yn y dyfodol eto. Wrth i ffocws y Cyngor symud tuag at adfer o'r pandemig, mae'n bwriadu adolygu effaith COVID-19 ar ei gymunedau a'r effaith y mae hyn yn debygol o'i chael ar wasanaethau yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y SATC yn adlewyrchu effaith ariannol barhaus y pandemig.

21 Pontio'r Bwlch yw prif ddull y Cyngor o hyd ar gyfer cau bylchau o ran cyllid yn y dyfodol dros y tymor canolig a hir. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi gallu bwrw ymlaen â'r holl arbedion a mentrau creu incwm yn y rhaglen Pontio'r Bwlch yr oedd wedi bwriadu eu cyflawni yn 2020-21 oherwydd COVID-19. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gorfod diwygio swm yr arbedion sydd wedi'u cynnwys ar gyfer blynyddoedd y SATC yn y dyfodol ac mae bellach yn disgwyl cyflawni o leiaf rhwng £0.8 miliwn ac £1.1 miliwn o arbedion newydd bob blwyddyn. Y bwlch o ran cyllid yn **Arddangosyn 3** yw'r bwlch gweddillol unwaith y bydd y lefel isaf o arbedion Pontio'r Bwlch wedi cael ei chymhwyso.

22 Felly mae angen gwaith pellach i adnabod arbedion ychwanegol i gau'r bwlch o ran cyllid. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod angen cynigion ychwanegol ar gyfer arbedion os yw'r cynigion presennol yn y rhaglen Pontio'r Bwlch yn annigonol i gau'r bwlch yn llwyr. Fodd bynnag, mae'n well gan y Cyngor ganolbwyntio ar ddulliau hirdymor o gau'r bwlch sy'n weddill yn hytrach nag adfer Prosiectau Effeithlonrwydd Ariannol blynyddol. Mae gan y Cyngor gynigion Pontio'r Bwlch ychwanegol i fwrw ymlaen â hwy ac mae'r pandemig wedi cyflwyno cyfleoedd eraill ar gyfer arbedion. Er enghraifft, mae newidiadau i drefniadau gweithio o ganlyniad i'r pandemig wedi cyflymu cynlluniau'r Cyngor i adael y Ganolfan Ddinesig. Ym mis Mawrth 2021, fe gytunodd y Cyngor i newid ei fodel gweithredu a threfniadau

gweithio, gan gynnwys gadael y Ganolfan Ddinesig yn barhaol. Mae disgwyl i hyn arbed oddeutu £1.5 miliwn i'r Cyngor dros bum mlynedd a bydd yn lleihau'r bwlch a ragwelir yn y gyllideb ymhellach.

23 Hefyd, mae'r Cyngor yn sefydlu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi gan ddefnyddio gwargedau a ragwelir yn y gyllideb i helpu i liniaru heriau ariannol ym mlynyddoedd diweddarach y SATC.

## Mae'r Cyngor yn cynyddu ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac mae'n dal i fod yn ymrwymedig i wneud hynny dros y tymor canolig

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

24 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

25 Y llynedd, canfuom fod Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn a bod y Cyngor yn cymryd camau i gynyddu ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn dilyn defnydd anghynaliadwy mewn blynyddoedd blaenorol.

26 Yn 2018-19, gan ddefnyddio cyfraniadau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ac o daliadau annisgwyl, fe ychwanegodd y Cyngor £0.4 miliwn at ei Gronfa Gyffredinol. Yn 2019-20, fe ychwanegodd £0.5 miliwn pellach at y Gronfa, gan ei chynyddu i £6.4 miliwn, cynnydd o 16% dros ddwy flynedd.

27 Mae **Arddangosyn 4** isod yn nodi sefyllfa'r Cyngor sy'n cryfhau o ran cyfanswm ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Er bod balansau'r Cyngor yn dal i fod yn is na chyfartaledd Cymru, mae ei sefyllfa wedi gwella o'r isaf yng Nghymru yn 2016-17 a 2017-18 i'r chweched isaf yn 2019-20.

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [4] | 146.2 | 147.0 | 146.3 | 148.2 | 145.8 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [5] | 12.9 | 10.6 | 12.7 | 14.7 | 28.6 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau [6] | 8.8% | 7.2% | 8.7% | 9.9% | 19.6% |
| Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru | 22 | 22 | 21 | 17 | |

28 Mae'r Cyngor yn disgwyl ychwanegu £1.4 miliwn pellach at y Gronfa Gyffredinol yn 2020-21. Mae'r Cyngor hefyd yn ymrwymedig i gryfhau ei gronfeydd wrth gefn dros y tymor canolig ac mae ei SATC yn cynnwys cyfraniad o £0.2 miliwn at y Gronfa Gyffredinol bob blwyddyn tan 2025-26.

29 Ar ben hyn, mae'r Cyngor hefyd yn cymryd camau i gryfhau ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi defnyddiadwy. Roedd adroddiad i'r aelodau etholedig ym mis Mawrth 2021 yn rhagweld balans mawr ar gyfer cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi defnyddiadwy o £9.2 miliwn ar ddiwedd 2020-21 – £0.9 miliwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, yn dilyn cyllid diwedd blwyddyn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn awr mae'r Cyngor yn disgwyl ychwanegu £12.5 miliwn at gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Mae cynigion terfynol y gyllideb ar gyfer 2021-22 hefyd yn cynnwys cyfraniad o £1.1 miliwn i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

[4] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: 2016-17 i 2019-20: Datganiad Cyfrifon; 2020-21: ffigyrau a ddarparwyd gan y Cyngor

[5] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: 2016-17 i 2019-20: Datganiad Cyfrifon; 2020-21: ffigyrau a ddarparwyd gan y Cyngor

[6] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

30 Yn ogystal â chynyddu ei falansau cronfeydd wrth gefn isel, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i reoli'r defnydd ohonynt yn effeithiol i sicrhau nad yw cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio mewn modd heb ei gynllunio nac i gefnogi cyllidebau refeniw.

31 Bydd camau gweithredu rhagweithiol y Cyngor i gryfhau ei falansau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn ei roi mewn sefyllfa gryfach i gwrdd â heriau ariannol yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â COVID dros y tymor canolig a'r effaith barhaus y gallai'r pandemig ei chael ar gyflawni arbedion Pontio'r Bwlch.

## Mae perfformiad cyffredinol y Cyngor yn erbyn y gyllideb yn gwella ac, er bo rhai meysydd gwasanaeth yn dal i orwario, mae'r Cyngor yn cymryd camau i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r pwysau hyn ar y gyllideb

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

32 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

33 Y llynedd, canfuom fod gan y Cyngor hanes diweddar o orwario yn erbyn ei gyllideb, ond bod swm y gorwariannau diwedd blwyddyn yn lleihau.

34 Wedyn, yn 2019-20, fe gyflawnodd y Cyngor warged o £0.5 miliwn (0.3%).

35 Mae adroddiad monitro'r gyllideb y Cyngor ar gyfer mis 9 yn rhagweld tanwariant o £0.55 miliwn yn 2020-21 unwaith y rhoddir cyfrif am gostau a chyllid sy'n gysylltiedig â COVID. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor wedi cael hysbysiad gan Lywodraeth Cymru y byddai'n cael cyllid grant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae hyn wedi arwain at warged diwedd blwyddyn o £9.2 miliwn. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r gwarged hwn i gynyddu balansau ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i roi mwy o gydnerthedd ariannol iddo.

**Arddangosyn 5: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pum mlynedd ddiwethaf.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau [7] | 137.5 | 144.6 | 145.4 | 147.3 | 152.1 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol [8] | 137.4 | 145.3 | 145.5 | 146.8 | 142.9 |
| Swm y gwarged/gorwariant ar y cyfan [9] | 0.07 | (0.7) | (0.1) | 0.5 | 9.2 |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | 0.05% | (0.5%) | (0.01%) | 0.3% | 6.4% |

36 Fe wnaethom adrodd y llynedd bod tanwariannau mewn rhai meysydd gwasanaeth wedi gwrthbwyso gorwariannau mewn meysydd eraill. Roedd hyn yn dal i fod yn wir yn 2019-20 ac fe ragwelir sefyllfa debyg ar gyfer 2020-21.

37 Mae llawer o bwysau o ran costau a gorwariannau yn 2020-21 yn gysylltiedig â gwariant ychwanegol neu incwm a gollwyd o ganlyniad i COVID-19. Fodd bynnag, mae gan rai o wasanaethau'r Cyngor orwariannau cylchol sy'n rhagddyddio'r pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau Plant, yn enwedig costau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal; a
- Gwasanaethau Cymunedol, yn enwedig costau sy'n ymwneud â gwasanaethau gwastraff.

38 Mewn ymateb i bwysau parhaus yn y Gwasanaethau Plant, fe roddodd y Cyngor ystod o fesurau ataliol ar waith sydd wedi helpu i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae ffioedd cyfreithiol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yn dal i fod yn bwysau allweddol o ran costau ac mae'r Cyngor yn archwilio opsiynau ar gyfer darpariaeth gwasanaethau cyfreithiol cydweithredol gydag awdurdodau lleol cyfagos.

[7] Ffynhonnell: Adroddiadau Alldro'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 a ffigyrau 2020-21 wedi'u darparu gan y Cyngor

[8] Ffynhonnell: Adroddiadau Alldro'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 a ffigyrau 2020-21 wedi'u darparu gan y Cyngor

[9] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

39 Rhaid i bortffolios sy’n gorwario ddatblygu cynlluniau gweithredu i liniaru pwysau a ragwelir o ran costau a, lle y bo’n bosibl, cynnwys y gorwariant o fewn y portffolio. Er enghraifft, mae gorwariannau rheolaidd yn y gyllideb plant sy’n derbyn gofal wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn mannau eraill yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gan arwain at danwariant net.

40 Nid yw portffolios eraill, megis yr Amgylchedd (sy’n cynnwys Gwasanaethau Cymunedol), wedi gallu gwrthbwyso gorwariannau o fewn y portffolio’n llwyr ac felly mae’r gorwariannau hyn yn effeithio ar sefyllfa’r Cygnor o ran ei gyllideb ar y cyfan.

41 Mae Is-grŵp Pwysau o ran Costau’n cwrdd yn chwarterol i herio ac asesu cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu portffolios sy’n gorwario. Adroddir hefyd ar bwysau o ran costau a chamau lliniarol mewn adroddiadau monitro’r gyllideb chwarterol i Bwyllgor Craffu’r Gyllideb ar y Cyd a’r Pwyllgor Gweithredol. Fodd bynnag, nid yw’r holl ddiweddariadau chwarterol i’r cynllun gweithredu’n dangos cynnydd yn glir ac mae’r diffyg graddfeydd amser yn ei gwneud yn anodd pennu pa un a yw camau gweithredu ar y trywydd iawn. Dylai’r Cyngor ystyried addasu fformat y cynllun gweithredu fel ei fod yn dangos yn fwy eglur pa gamau lliniaru sy’n cael eu cymryd yn erbyn pob un o’r pwysau unigol o ran costau, y raddfa amser ar gyfer cwblhau, a’r cynnydd sydd wedi cael ei wneud ym mhob chwarter. Dylai’r Cyngor sicrhau hefyd bod her ddigonol lle nad yw cynlluniau gweithredu’n cael eu diweddaru’n briodol neu lle nad yw camau lliniarol yn gweithio.

## Mae’r Cyngor wedi datblygu dull mwy cynaliadwy o gynllunio arbedion ond mae heriau pellach yn bodoli o hyd i adnabod arbedion digonol i gau’r bwlch a amcangyfrifir o ran cyllid yn y tymor canolig a hynny’n llwyr

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

42 Mae’r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny’n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy’n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu’r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau’r Cyngor, neu o ddatrysiadau ‘byrdymor’ nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

## Yr hyn a ganfuom

43 Y llynedd, canfuom fod gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio ond ei fod yn newid ei ddull i adnabod arbedion hirdymor mwy cynaliadwy trwy'r rhaglen Pontio'r Bwlch.

44 Yn 2019-20, fe barhaodd y Cyngor i gyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio – 98% o'r £3.3 miliwn a gynlluniwyd.

45 Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd dull y Cyngor o gynllunio arbedion yn canolbwyntio ar adnabod niferoedd uchel o brosiectau effeithlonrwydd ariannol unigol yn flynyddol. Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni'r arbedion hyn, fel a ddangosir yn **Arddangosyn 6** isod.

**Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion rhwng 2017-18 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal ag amcangyfrifon ar gyfer 2020-21.

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21[10] |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau [11] | 4.8 | 3.8 | 3.3 | 1.5 |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau [12] | 4.7 | 3.5 | 3.3 | 1.2 |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 0.4 | 0.3 | 0.07 | 0.25 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 98% | 91% | 98% | 83% |

46 Yn dilyn setliad gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, roedd y Cyngor yn gallu cau'r bwlch yn ei gyllideb gan ddefnyddio arbedion a adnabuwyd trwy'r rhaglen Pontio'r Bwlch. O ganlyniad, nid oedd angen iddo roi unrhyw brosiectau effeithlonrwydd ariannol ar waith.

47 Roedd yr arbedion Pontio'r Bwlch wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21 yn gyfanswm o £1.5 miliwn ac yn cynnwys arbedion ac incwm uwch. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar allu'r Cyngor i roi'r holl arbedion wedi'u cynllunio ar waith. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020, roedd y Cyngor yn rhagweld y byddai'n

[10] Ffynhonnell: Adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Mis 9

[11] Ffynhonnell: Datganiadau Alldro'r Cyngor i Bwyllgor Craffu'r Gyllideb ar y Cyd

[12] Ffynhonnell: Datganiadau Alldro'r Cyngor i Bwyllgor Craffu'r Gyllideb ar y Cyd

cyflawni 83% (£1.2 miliwn) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o'r diffyg wedi digwydd o ganlyniad i'r ffaith nad oedd y Cyngor yn gallu bwrw ymlaen â mentrau creu incwm newydd yn ystod y pandemig. Mae'r Cyngor yn deall y bydd y cyllid gan Lywodraeth Cymru'n ariannu'r diffyg hwn yn awr.

48 Mae'r Cyngor wedi diwygio'r arbedion a ragwelir ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i adlewyrchu'r effaith barhaus y mae'r pandemig yn debygol o'i chael, er enghraifft ar fusnesau lleol, ac fe adlewyrchir hyn yn y SATC. Mae'r sefyllfa ddiweddaraf a ragwelir yn awgrymu y bydd cyfanswm arbedion cronnus o £12.9 miliwn yn cael eu cyflawni rhwng 2021-22 a 2025-26. Yn seiliedig ar dybiaethau cyfredol, mae hyn yn gadael bwlch cronnus yn y gyllideb o £21.6 miliwn dros yr un cyfnod. Dros y blynyddoedd sydd i ddod, mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu cynigion newydd dan y rhaglen Pontio'r Bwlch i'w helpu i gau gweddill y bwlch a ragwelir yn y gyllideb.

## Mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn dal i fod yr isaf yng Nghymru

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

49 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

### Yr hyn a ganfuom

50 Mae cymhareb hylifedd y Cyngor yn gyson wedi bod yr isaf yng Nghymru dros y pum mlynedd ddiwethaf, gan amrywio rhwng 0.3 a 0.5.

51 Mae **Arddangosyn 7** isod yn dangos bod rhwymedigaethau cyfredol y Cyngor wedi cynyddu £33.5 miliwn (62%) rhwng 2015-16 a 2019-20. Dros yr un cyfnod, fe gynyddodd asedau cyfredol y Cyngor £4.3 miliwn (15%).

52 Y gymhareb hylifedd a ragamcanir ar gyfer 2020-21 yw 0.8.

53 Mae'r Cyngor wedi dewis dal ei asedau mewn cyfrifon byr rybudd, sy'n golygu y gall gael mynediad at ei asedau'n gyflym os oes angen. Dywedodd y Cyngor wrthym hefyd ei fod yn dewis talu i'w gredydwyr yn brydlon er mwyn cefnogi busnesau lleol, er bod hyn yn effeithio ar y fantol rhwng asedau a rhwymedigaethau cyfredol am bod y Cyngor yn talu i'w gredydwyr yn gyflymach nag y mae'n cael arian gan ei ddyledwyr.

**Arddangosyn 7: cymhareb cyfalaf gweithio 2015-16 i 2020-21[13]**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [14] | 27.9 | 24.2 | 24.6 | 28.9 | 32.2 | 126.5 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [15] | 54.3 | 65.2 | 86.8 | 89.8 | 87.8 | 161.3 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 0.5 | 0.4 | 0.3 | 0.3 | 0.4 | 0.8 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio ar draws holl gynghorau Cymru | 22ain | 22ain | 22ain | 22ain | 22ain | |

[13] Ffynhonnell: 2015-16 i 2019-20 – Datganiad Cyfrifon; 2020-21: ffigyrau a ddarparwyd gan y Cyngor

[14] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth.

[15] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.